

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWDYD AR 10 o FAI 2021 TRWY GYFRWNG ZOOM AM 7.00 O'R GLOCH

Presennol: Margaret Rees (yn y gadair), Alan Lewis, Ian Evans, Tyssul Evans, Linda Williams, Caroline Williams, Geraint Rosser, Aled Williams a'r Clerc, Glyndwr Prideaux.

Ymddiheuriadau: Heddwyn Jones, Tracey James, Geoff Hewitt a Meic Bowen

2598 Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd yn enwedig Derrick Rowlands a oedd yn ymuno a ni.

2599 Cofnodion

Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfodydd diwethaf ar 12/04/2021 fel rhai cywir.

2600 Materion yn codi.

Tud 1. Cofnod Rhif 2576 - Clwb Cymdeithasol Carwe. – Arhoswn am ymateb oddiwrth y Cyngor Sir.

Tud 1. Cofnod Rhif 2576- Swyddfa Bost Carwe - Cysylltwn eto gyda'r Swyddfa Bost er mwyn trefnu Cyfarfod Safle pan bod y sefyllfa COVID-19 yn caniatáu.

Tud 1. Cofnod Rhif 2576 – Cofeb Rhyfel Pontiets – Derbyniwyd adroddiad gan y Clerc oddiwrth 'War Memorials Online'. Byddwn yn edrych am brys ychwanegol

Tud 1. Cofnod Rhif 2576 - Parc Pontiets - Gobeithir symud ymlaen a'r gwaith angenrheidiol o fewn yr wythnosau nesaf os bydd y tywydd yn caniatáu.

Tud 1. Cofnod Rhif 2576 – Llwybr Treftadaeth – Derbyniwyd amcan brys oddiwrth Cwmni Phillip Wait, Cynghordy. Penderfynwyd gwneud cais am nawdd oddiwrth Cronfa Ffoslas.

Tud 1. Cofnod Rhif 2576 - Glanhau/Golchi Ceir - Heol y Meinciau, Pontiets – Mae'r mater wedi ei datrys

Tud 2. Cofnod Rhif 2589 – Parc Pontiets – Derbyniwyd amcan brys o £40 am trwshio'r Ffens a'r Seddi oddiwrth Marcus Dininno.

Gohebiaeth

Ceisiadau am grant/cyfraniadau ariannol:-

Cynghorwr Tyssul Evans yn datgan diddordeb, arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

2601 Salem, Pedair Heol – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £600.

2602 Apel Cadeirydd Cyngor Sir Gaerfyrddin 2020/2021 – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £100.

Tyssul yn ail ymuno a'r cyfarfod.

Gohebiaeth gyffredinol :-

2603 Cyngor Sir Gar – Cod Ymddygiad - Awdurdodwyd y Clerc i ddanfon y manylion priodol.

Ceisiadau Cynllunio

2604 a) Rhif y Cais – PL/01699 – 2 Heol Dyffryn Aur, Carwe - Troi Garej yn Swyddfa – Dim Gwrthwynebiad.

b) Rhif y Cais - PL/01714 – Tir yn Heol Mansant, Pontiets – Estyniad i'r gwaith - Dim Gwrthwynebiad.

c) Rhif y Cais – PL/01767 – Lamneth, Carwe – Newid y To – Dim Gwrthwynebiad .

ch) Rhif y Cais – PL/01821 – Ffos Wilkin, Pedair Heol – Estyniad – Dim Gwrthwynebiad.

Gwaharddiad y Cyhoedd

2605 Penderfynwyd gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod o achos ein bod yn trafod materion cyfrinachol

Adroddiad o Daliadau a Threuliau'r Mis

2606 Derbyniwyd adroddiad ariannol Mis Ebrill 2021. Derbyniwyd argymhelliad y Clerc ein bod yn trosglwyddo gweddillion rhan o'r gyllideb sydd heb eu gwario i'r lein gyffredinol.

Adroddiad Ariannol Misol

2607 Penderfynwyd bod y canlynol i'w dalu :-
a) Cyflog y Clerc - £446.63 (Mis Ebrill)
b) Ffon Tŷ'r Clerc - £25.00 (Mis Ebrill)
c) Cydnabyddiaeth y Syrfêwr - £110.00 (Mis Ebrill)
ch) HMRC (Treth)- £89.40 (Mis Ebrill)
d) Ffon Symudol y Cyngor - £9.98 (Mis Ebrill)
dd) BT – Ffon y Swyddfa - £52.92 (Mis Ebrill)
e) Paula Clarke – Glanhau Toiledau'r Meinciau (Mis Ebrill)- £182.00
f) EDF – Trydan – Toiledau'r Meinciau (Mis Ebrill) - £13.43
ff) Un Llais Cymru - Aelodaeth - £594.00
g) Marcus Dininno– Torri Gwair, Carwe - £50.00

2608 Toiledau'r Meinciau

Cafwyd adroddiad gan y Clerc bod problemau cyffuriau a Fandaliaeth wedi bod yn y safle. Mae'r materion hyn yn nwylo'r Heddlu ar hyn o bryd.

2609 Llwybrau Cyhoeddus

Cafwyd adroddiad bod problemau wedi codi gyda Llwybr Rhif 30/99 a Llwybr trwy Ffoslas. Mae'r materion hyn o dan sylw'r Cyngor Sir.

2610 Parc Llangyndeayrn

Wedi derbyn adroddiad y Clerc penderfynwyd bod y Clerc i siarad ymhellach gyda Swyddogion Pwyllgor Lles Llangyndeayrn.

2611 Llyn Pysgota i'r Gorllewin o Fferm Plas bach.

Wedi derbyn adroddiad gan y Clerc, penderfynwyd fel cysylltu a Swyddogion y Cyngor Sir ynglyn a'r mater.

2612 Tir – Clwb Rygbi Pontiets

Derbyniwyd llythyr oddiwrth Mrs Petra Jones, 92, Heol y Meinciau, Pontiets ynglyn a phroblem llifogydd ar gardd rhif 1, Heol y Meinciau. Penderfynwyd trosglwyddo'r llythyr i'r Clwb Rygbi.

2613 Sedd yng Ngharwe

Penderfynwyd gosod y mater hwn ar Agenda'r Cyfarfod nesaf.

Cyfarfod nesaf:- 7fed o Mehefin 2021

Llofnodwyd..... **CADEIRYDD**

Dyddiad.....

